



WALK AND DISCOVER IN THE PARISH OF LLANRUG
TALES FROM THE ICE AGE TO THE SECOND WORLD WAR TO
HAWES Y PLWYF O OES YR I'R ALL RYFEL BYD
DARLLENWCH A CHERDDWCH Y LLWYBRAU I DDARGANFOD



CWM Y GLO
LLANRUG
TROEDIO LLWYBRAU

Yn ôl hen gyfreithiau canol oesol Cymru roedd gan bawb hawl i ddefnyddio tir comin i gael dŵr, coed tân ac i gyrraedd addoldy. Dyma yw tarddiad y llwybrau cyhoeddus yr ydym yn eu defnyddio heddiw ac mae dros 100 ohonynt ym mhlwyf Llanrug gyda digonedd o ryfeddodau a hanesion diddorol i'w darganfod. Mwynhewch!

According to the old medieval Welsh Laws, everybody had the right of access to places of worship, to collect water and get firewood from common land. These were the origins of the public footpaths we have today and there are over 100 of them in the parish of Llanrug, each with their own stories to tell and wonders to discover. Enjoy!



DAEAREG • GEOLOGY

MYNYDDOEDD COLL • LOST MOUNTAINS



Rhyw 300-500 miliwn o flynyddoedd yn ôl roedd cadwyn o fynyddoedd enfawr tebyg i'r Alpau yn edrych i lawr ar Ynys Môn. Yn raddol cafodd y mynyddoedd eu herydu gan y rhew a'r glaw. Petaent yno o hyd, byddai'r olygfa i'r gogledd o Lanrug yn dra gwahanol (gweler uchod).
300-500 million years ago a mountain range of Alpine proportions towered over Anglesey. Slowly these giant peaks were worn away by ice and rain. Had they still be standing today, the view to the north of Llanrug would look very different (see image above).

CARREG ARTHUR • ARTHUR'S STONE CYLCHDAITH YR EGLWYS I GARREG ARTHUR CHURCH TO ARTHUR'S STONE CIRCULAR WALK




Mae'r garreg fawr hon wedi bod yn safle picnic poblogaidd i genedlaethau o bobl leol, ond sut gyrraeddodd craig o'r fath y fan hyn? Un hanes yw bod y Brenin Arthur wedi'i thynnu o'i esgid a'i thafu i ffwrdd. Rowlodd y garreg i lawr llethrau Cefn Du nes iddi gyrraedd ei lleoliad presennol. Mewn gwirionedd, carreg folcanig yw hi, 450 miliwn o flynyddoedd oed. Ar ddiwedd Oes yr Iâ cafodd ei chodi gan y rhewlif a ddaeth i lawr Dyffryn Peris ger Fachwen a'i gollwg yma pan ddechreuodd y rhew doddi tua 11,000 o flynyddoedd yn ôl.
Carreg Arthur has been a favourite picnic destination for generations but how did the rock end up in such a location? The legend goes that the stone irritated King Arthur when it got lodged in his shoe. He threw it away and it rolled down Cefn Du to come to rest at its present location. The reality is somewhat different though as Arthur's Rock is in fact volcanic in origin, 450 million years old. At the end of the Ice Age it was picked up near Fachwen by the glacier that came down Llanberis Pass and dumped here when the ice began to melt around 11,000 years ago. Dumped here when the ice began to melt around 11,000 years ago.

YR EGLWYS • THE CHURCH



Câi eglwysi eu cysegru i Fihangel Sant rhwng y seithfed a'r nawfed ganrif. Perthyn Eglwys Mihangel i'r cyfnod hwn. Roedd wedi ei lleoli o fewn uned seciwlar Y Rug. Pan ffurfiwyd y plwyf yn ddiweddarach, unwyd unedau seciwlar Y Rug, Pryscol a Rhuddallt i ffurfio plwyf Llanfihangel yn Rug. Cwtogwyd yr enw maes o law i Lanrug, sef cyfuniad o'r hen a'r newydd. Yn yr eglwys bresennol, tybir fod y waliau du yn y darlun (chwith) yn dyddio o'r 13eg ganrif a'r rhaï glas o'r 16eg.




Churches were dedicated to St Michael between the seventh and ninth century. The church of St Michael belongs to this period. It was situated within the secular unit called Rug (heather). When the parish was later established, the secular units of Rug, Pryscol and Rhuddallt were joined to form the parish of 'St Michael in the heather'. In time it was shortened to Llanrug, a combination of the old and new. Of the present building it is thought that the walls in black in the illustration (above) date from the 13th century and the ones in blue from the 16th.

CYTIAU MUR MOCH MUR MOCH ROUND HUTS Cylchdaith Cwm y Glo Circular Walk



Mae cyfoeth o weddillion o'r cyfnod Rhufeinig a Cheltaidd i'w gweld yn ardal Clegyr ac yn y plith mae cwtiau crwn 'Mur Moch' sy'n ymddangos fel cylchoedd o gerrig gyferbyniad i'w gweld ac sydd wedi'u hail greu yma fel yr oeddont yn edrych 1900 o flynyddoedd yn ôl (isod). Erbyn dechrau'r ail ganrif roedd y bobl oedd yn byw yma'n mwynhau bywyddau digon llewyrchus o dan reolaeth y Rhufeiniaid.


CASTELL PANT IFAN CASTLE Llwybr 63, Cylchdaith Yr Eglwys i Garreg Arthur Path 63 Church to Carreg Arthur Circular Walk



Nid oes llawer o bobl yn sylweddoli bod castell 'mwnt a beili' o'r 11eg neu'r 12fed ganrif wedi bodoli ar gyrion Llanrug. Tybiwyd mai 'castell' Normaniaidd oedd hwn, ond gall yr hen enw arno, 'Castell Gron', awgrymu mai un Cymreig ydoedd. Gall 'Gron' gyfeirio at yr enw 'Goronny' yn hytrach nag at siâp y safle. Oedd 'Goronny' yn ddyfynys yn yr ardal? Dyma ailgred ohono (uchod), a dyma bath fydddech wedi'i weld pe baech yn cerdded ar hyd Llwybr 63 tua 800 o flynyddoedd yn ôl. Few people are aware that a wooden Motte and Bailey type 'castle' once stood on the outskirts of Llanrug. The 'castle' at Pant Ifan was probably occupied around the 11th and 12th century although the local name of 'Castell Gron' may be a clue that it was a Welsh rather than a Norman settlement. 'Gron' can mean 'round' or a shortened version of 'Goronny' who may have been a nobleman. The reconstruction (above) is the view you would have had of the castle had you stood on Path 63 some 800 years ago.

BEDD ANN ROWLANDS ANN ROWLANDS' GRAVE

Yn union gyferbyn ag adeilad yr eglwys mae carreg fedd Ann, merch 12 oed John Rowlands, Plastrion. Un bore Sul ym mis Awst 1729 gwrthododd Ann fynd i'r eglwys gyda'i theulu am ei bod yn rhy brysur yn cribo'i gwallt hir o flaen y drych. Erbyn i'r teulu gyrraedd adref roedd Ann wedi marw. Mae siâp pen y ferch a thresio o wallt hir yn ymddangos ar garreg ei bedd (fel peta'n sylu i ddrych) wrth i'r garreg sychu ar ôl glaw (isod).



Directly next to the church is the gravestone of Ann, the 12 year old daughter of John Rowlands, Plastrion. One Sunday morning in August, 1729 Ann refused to go to church with her family, preferring to sit in front of her bedroom mirror to comb her beautiful long hair. When the family returned they discovered that Ann had died on the spot. The shape of Ann's face and long hair, staring at herself in the mirror, appears on her gravestone when it dries after rainfall (see sequence above).


BEDD YR ARWYDDION OD THE GRAVE WITH THE CURIOUS SYMBOLS

I'r de o'r eglwys mae carreg fedd [Edward] Parry, ac mae wedi bod yn destun dirgelwch a thrafod ers blynyddoedd maith. Ar ôl iddo farw ym 1752, yn 101 oed, ychwanegwyd nifer o symbolau ar garreg ei fedd. Mae rha'n honni mai awyddion y Seiri Rhyddion ydynt, tra mae eraill yn dadlau eu bod yn gysylltiedig â dewiniaeth ddu. Mae'n debyg bod yr esgryn croes yn golygu ei fod wedi marw o salwch dirgel. Oddi tanynt mae'r hyn sy'n debyg i ddyw gannwyll heb eu cynnu. Maent yn hynod o debyg i'r symbolau a ddefnyddir mewn dewiniaeth ddu i gynrychioli Neifion, dau'r môr. Rhyngddynt mae 'arian' ar ei phen i lawr. Ai fenestr yw hon gyda'r môr yn y cefndir? Ai morwr oedd Parry? Mae'r llythrennau 'M' ac 'O' i'w gweld mewn bylchau sgwâr, sy'n hen ddur Grogogedd o ysgrifennu ac yma ac acw mae dotiau gyda chylychoedd o'u cwmipas, sy'n cynrychioli'r haul. Beth ydych chi'n feddwl?



Y CÔR YSBRYDOL THE PHANTOM CHOIR

Peidiwch ag oedni rhy hir wrth y ffinwyt yn y nos. Mae sawl un wedi clywed côr yn canu y tu mewn i'r eglwys dros y blynyddoedd heb i neb fod ei chyflif. Flynyddoedd maith yn ôl bu'n rhaid i lanhauwaig yr eglwys rhedeg adref am ei bywyd ar ôl clywed y 'côr ysbrydol' gan dyngu nad âi byth yn ôl yno.



Don't hang around the graveyard for long at night for many people have heard a phantom choir from within the church when there was nobody there. Many years ago a church cleaner was so petrified to hear the phantom choir that she ran home and vowed never to return.


HANE SION DIFYR INTERESTING STORIES



BRYN FEDWEN ger/near SEIONT MANOR Cylchdaith Llanrug Circular Walk

With gerdded heibio Seiont Manor ar hyd Llwybr 31, edrychwch i gyfeiriad y caeau i'r de tua Bryn y Fedwen gan mai yma y bu milwyr Cromwell yn caethiwo nifer o 'recusantiaid' (gwrthwynebwyr crefyddol) a charcharonion rhyfel yn ystod y Rhyfel Cartref yn y 1640au. Yn wir, yr hen enw ar y fan hon yw 'Cwrt y Giard'. Mae'n debyg bod yr adeilad yr ydym yn ei adnabod fel Bryn y Fedwen heddiw wedi'i godi'n syth ar ôl y Rhyfel Cartref ar safle adeilad cynharach a gafodd ei ddinistrio neu ei dymchwel ar ddiwedd y gwrthdaro.
Whilst walking past Seiont Manor along Path 31, gaze to the South towards Bryn y Fedwen (Birch Hill) for it is here that Cromwell's army held captive a great number of 'recusants' (religious opponents and prisoners of war) during the Civil War in the 1640s. Indeed the old name for this area is 'Cwrt y Giard' (The Guard's Court). Bryn y Fedwen is now a ruin but was built immediately after the Civil War on the site of an earlier house which was probably destroyed or dismantled at the end of the conflict.

YSBRYD LLAS GWYN GHOST Cylchdaith Llanrug Circular Walk




Yn gynnar yn y ddeunawfed ganrif roedd rheithor plwyf Llanrug yn byw yma. Yn ôl traddodiad, roedd yn ymddiddori mewn dewiniaeth. Roedd diwrnod ei angladd yn heulog a chilr, ond pan hebryngwyd y corff at borth yr eglwys, daeth yn storm o felg a tharanau fel mai prin y gallai'r cludwyr ddal gafael yn yr elor. Dywedir fod ei ysbryd yn parhau mewn un ystafell arbennig yn y plâs.

CAPEL MAWR A'R SWYDDFA BOST THE CHAPEL AND THE POST OFFICE Cylchdeithiau Llanrug Circular Walks



Rhoddyw hawl i'r Methodistiaid godi capel ar y comin. Adeilad bychan oedd y capel gwreiddiol ym 1798 a phlun oedd yr aelodau. Roedd arian hefyd yn brin i dalu'r pregethwyr. Dywedir fod y dyn oedd yn byw yn y ty capel wedi gweddio am gymorth, a phan aeth allan i'r ardd y bore Sul canlynol, gwelodd fod twrch daer wedi codi darnau o arian o'r pridd; digon i dalu am wasanaeth pregethwyr! Sylwer fod plac uwchben drws y capel yn nodi ei fod wedi capel ei ailadeiladu a'i adeiladu i'w ymuno hen ffordd Glanmoelyn wedi'i guddio'n gyfan gwbl bron gan y swyddfa bost. Roedd hyn yn furiadol oherwydd pan adeiladwyd y swyddfa bost ym 1888 gwrthododd y capel roi tir iddo ar gyfer gardd. Achosodd hynny ffrae a chododd bedwerydd llawr ar y swyddfa bost i guddio'r capel er mwyn dal arian!
The Methodists were given permission to build a chapel on the common in 1798. It was a small building and the members were few. Money was also scarce to pay for the preachers. There is a story that the man who lived at the chapel house once prayed for help, and that when he went out to the garden the following Sunday, found that a mole had pushed up pieces of silver out of the earth; enough to pay for that day's preacher! A plaque above the chapel door tells us that it has since been rebuilt 3 times. However, as you look towards it from the square you will note that the chapel (built to face the old road coming from Glanmoelyn) is almost hidden by the Post Office. This was deliberate because when the post office was built in 1888 the owner was refused land by the chapel for a garden. A row ensued and the post office was raised to three floors to deliberately HIDE the chapel!

PRYSGOL Cylchdaith yr Eglwys i Gaeathro Church to Caethro Circular Walk



Adeiladwyd y ty gwreiddiol (isod) yn y 14eg ganrif a dyma oedd cartref William Owen, y cyfansoddwr emynau enwog yn ystod y 19eg ganrif. Gyferbyn â'r llwybr rhwng y ty a'r ffordd galwch weld olion chwiolau sy'n dyddio o'r Ail Ryfel Byd (tebyg i'r un yn y darlun cyfoes, awyth). Eu prwpas oedd canfod awyrennau'r Almaen ar eu ffordd i fomio Lerpwl ar nosweithiau tywyll.
Originally built in the 14th century, the present house (above right) was once the home of William Owen, the famous 19th century hymn writer. Next to the path between the house and the country lane you may notice the overgrown semi-circular track that housed a searchlight unit during the Second World War (as in the contemporary illustration, above left), here to spot German planes on their way to bomb Liverpool.



An old site bought by Dr John Hughes in 1808. When the common lands were enclosed, he claimed the land that later became the Ysgol Brynrefail playing fields. He is the 'doctor' who gave his name to Llyn Doctor in the river below. The old house is now empty, and the farmhouse and buildings have been renovated and renewed to form the Seiont Manor Hotel.

CEFN DU Llwybr 51 Path 51

Mae traddodiad bod miwr a'i geffyl wedi mynd ar goll ar lethrau Cefn Du yn ystod y Rhyfel Cartref ac na welwyd y naill na'r llall byth wedyn er bod sôn hyd heddiw bod eu hybsyrd yn carlamu ar hyd y bryniau mewn tywydd garw. Yn wir, mae'n bosibl bod peth sail i'r stori gan mai dros Gefn Du yr aeth Syr John Owen a'i ddilynwy'r i ddiannach lluoedd y brenin ar Fehefin 5ed 1648. Daeth byddin o Gaernarfon i'r ardal i chwilio amdanyn ond yn ofer.
There is a tradition that a soldier and his horse got lost on Cefn Du during the Civil War and that nothing was ever seen of them again, giving rise to tales of their ghostly apparitions seen galloping across the hill during stormy weather. Indeed there may well be an element of truth in the story. On June 5th 1648, Sir John Owen and his followers fled across Cefn Du to escape the King's forces as an army from Caernarfon Castle came looking for them, but failed.

ROBERT THOMAS

Brodor o'r Brynwyn. Dysgodd ganu offerynnau cerdd yn ifanc iawn. Bu'n arweinydd ar Gôr Eglwys Llanrug. Yr oedd hefyd yn un o aelodau gwreiddiol Band Llanrug (band hynaf gogledd Cymru) a bu'n ei arwain am flynyddoedd lawer.
A native of Brynwyn. He learned to play various musical instruments at a young age. Conductor of Llanrug Church Choir. One of the original members of Llanrug Band (the oldest band in north Wales) and its conductor for many years.

DAVID THOMAS (DAFYDD DDU ERYRI)
Yn llenor a bardd, diwedodd Dafydd Dafydd Eryri ei oes yn Fron Oleu, Llanrug a bu'n cadw ysgol yn yr eglwys. Dysgodd y rheolau barddol i nifer fawr o feirdd Arfon, ac yr oedd yn awurdodol ar y canu caeth. Ei 'Traethawd ar ddim' yw'r cynnyf cnyntaf yn y Gymraeg ar ysgrifennu ysgrif. Boddodd yr afon Cegin ar ei ffordd adref o Fangor ac fe'i claddwyd yn Llanrug.
A poet and literary man, he lived at Fron Oleu, Llanrug towards the end of his life and kept a school in the church. He taught the rules of poetry to a large number of Arfon poets, and was an authority on strict metre. His 'Essay on Nothing' is the first attempt in Welsh at writing a light essay. He drowned in the river Cegin as he was returning home from Bangor, and is buried at Llanrug.

PLASTIRION Cylchdeithiau o'r eglwys The Circular Walks from the Church



Nid meini hirion sy'n sefyll ar y ponciau tir yng nghaeau'r fferm. Fe'u gosodwyd yn i goffau brwydrau Hugh Rowlands yn Rhyfel y Crimea. Ef oedd y Cymro cyntaf i derbyn Cross Fictoria am ei ddeddfwr ym Mrwydr Inkerman.
The large pointed stones standing on hillocks in the fields are not ancient. They were placed there to mark the battles of Hugh Rowlands in the Crimean War. He was the first Welshman to be awarded the Victoria Cross for bravery at the Battle of Inkerman.

CROES CLEGYR THE CLEGYR CROSS Cylchdaith Cwm y Glo a Chlegyr Cwm y Glo and Clegyr Circular Walks



Mae'r groes ar ochr y ffordd yn y Clegyr yn dangos y fan lle glaniodd olwyn trol a falurwyd gan ffyrddra y powdwr oel rhwng Y Friscan, Cwm y Glo a Phen Llyn islaw. Lladwyd pump yn y drychdraed fel ar Ddydd Mercher, 30 Mehefin 1869 a chymaint oedd nerth y ffyrddraed fel na chafwyd hyd i gryff y meirw, na'r cefyll druan. Hyrddwyd darn o un o'r olwynion am filltir nes cyrraedd y fan hon ac mae'n draddodiad i gerddwyr sy'n mynd heibio i'n naddu'r groes er mwyn cadw'r cof am y ddamwain yn fyw.


The cross by the roadside in Clegyr marks the site where a cartwheel was thrown by the lightning explosion between Y Friscan, Cwm y Glo and Pen Llyn below. Tragically, five people were killed instantly on that hot Wednesday, June 30/1869. Such was the severity of the explosion that some body parts of the dead (and the poor horse) were never found. One of the cartwheels was catapulted almost a mile to this point where it is a tradition for walkers going past to scratch the cross to keep alive the memory of the accident.

PIBYDD BRITH LLANRUG LLANRUG'S 'PIED PIPER' Cylchdeithiau Llanrug Circular Walks



Brodor o Lanllynfi oedd Foulk Robert Williams ('Ffowc bach y cantor', 1774-1870), ond bu'n byw yn y Clegyr am y rhan helaethaf o'i oes. Mae'n enwog am arwain gorymdaith, fel rhyw bilydd brith, o'r eglwys i Ysgol Glanmoelyn (sydd erbyn hyn yn weithdy cwmni fenestr) ar achlysur ei hagar. Wrth dychwelyd i'r Clegyr (yr oedd Castell Bryn Bras yn cael ei adeiladu ar y pryd), dysgynodd rhan o'r fynedfa fwaog ar ei ben a'i anafu'n ddwng. Er hynny, bu fyw nes oedd yn 96 oed.
Foulk Robert Williams (1774-1870) was a native of Lanllynfi, but lived most of his life in Clegyr. He famously led a procession, like some pied piper, from the church to Glanmoelyn School (now a double-glazing workshop) when it was first opened. Once, on his way home to Clegyr when Bryn Bras Castle was being built, the archway fell on him and he was badly injured. Nevertheless, he lived to the ripe old age of 96.

GIATIAU MOCHYN KISSING GATES



Peidiwch ag anwybyddu giatiau mochyn fel hyn ar eich teithiau. Edrychwch yn fanwl ariant gan fod llawer ohonynt wedi'u gwneud o ddarnau o hen danciau milwrol ac ati o'r ail ryfel byd. Don't ignore these types of 'kissing gates' on your walks. Look closely at their construction for they are bits of recycled tanks and armoured plating left over at the end of the World War II.

Llwybrau plwyf LLANRUG parish footpaths


CYFLWYNIAD INTRODUCTION

Ceir cyfeiriad at bob lleoliad ar y map yng nghorff y testun. Er bod llwybrau plwyf Llanrug mewn cyflwr da ar y cyfan, rhaid cofio bod rhai ohonynt yn 200 oed erbyn hyn a'u bod yn gallu bod yn wlyb mewn manau ar ôl glaw. Cymerydd pob gofal wrth gasglu'r holl wybodaeth yn y daflen hon ond rhaid cofio bod gwirionedd un person yn gallu bod yn getwydd noeth i rywun arall. Gobeithwn y cewch bleser wrth ddarparu llwybrau a hanes cyfoethog plwyf Llanrug ac y cewch hwyli hefyd wrth greu eich cylchdeithiau cerdded eich hun. Cofiwch fod yn ofalus wrth groesi'r ffordd prysur.

All the locations on this map are mentioned in the text. Although the parish footpaths are generally in good shape, some are over 200 years old and can be a bit wet after rain. Great care has been taken to collate all the information in this publication, however as is often the case one person's true story can be another's myth. All we ask is that you enjoy discovering the footpaths and have fun devising your own circular walks. And remember....please take care when crossing main roads.



Ysgol Glanmoelyn School oddeutu / c. 1900



CYLCHEITHIAU LLANRUG A THANY COED
LLANRUG AND TANY COED CIRCULAR WALKS

Cychwyn/Start: Sgwar Llanrug Square neu/or Caffi Wavell Cafe, Lon yr Orsaf/Station Road
Hyd/Distance: Amrywiol/ Variable
Nodiadau/Notes: Hawdd ar y cyfan/ Generally easy.

a) O'r sgwar cerddwch i gyfeiriad yr eglwys. Oddi yma gollwch gerdded heibio'r eglwys a dilyn Llwybr 80 i weld yr ysbryd ym Mhlas Gwyn (gweler 'Hanesion Difyr') neu ddilyn Llwybr 78 heibio fferm Bryn Llan cyn cyrraedd yr eglwys. Croeswch y ffordd fawr yn ofalus i ymuno â Llwybr 32 i Seiont Manor. Yma mi welwch Llwyn y Brain, cartref hynafol Dr John Hughes a'r awdur Berta Ruck. Yn y caeau i'r de bu byddin Cromwell yn cadw'i gelynlion yn gaeth yn ystod y Rhyfel Cartref (gweler 'Hanesion Difyr'). Ewch heibio cefn y gwesty i ymuno â Llwybr 31 (sef Llwybr ar gyfer y gweithwyr oedd yn adeiladu'r rheilffordd yn y 1860au) hyd at Afon Seiont. Ar ôl cyrraedd yr hen reilffordd pam na arhoswch am bnic ar lan Afon Seiont?

b) Dewis arall yw cychwyn o'r Sgwar a cherded o amgylch y pentref. Anelwch am yr eglwys ond trowch i'r dde wrth gressfordd Glanmoelyn. Ewch i'r dde i ymuno â Llwybr 30 a chroesi'r ffordd fawr yn ofalus yn Didda. Yno ymunoch â Llwybr 29 drwy gwrs goffi Tuddyn Mawr ac ymlaen i Crawia. Cerddwch yn ôl i gyfeiriad y pentref a throi i'r chwith ar hyd Lôn Groes. Yna i'r chwith eto wrth y Neuadd Goffa ac i lawr Ffordd yr Orsaf a throi i'r dde ar hyd Llwybr 3 neu 2 i Groeslon Marc. Cerddwch ar hyd y lôn i gyfeiriad Tan y Coed ond gan ymuno â Llwybr 26 i'r chwith i weld Castell Bryn Bras. Trowch i'r dde ar hyd Llwybr 25 a/neu 24 ger y castell i Dan y Coed. Croeswch y ffordd a dilyn Llwybr 71 yn ôl i gyfeiriad Glanmoelyn.

a) From the square walk towards the church. Here you can walk past the church to take a detour along Path 80 to see the ghost at Plas Gwyn (see 'Interesting Stories') or alternatively take Path 78 past Bryn Llan Farm before you reach the church. Cross the main road carefully to join Path 32 to Seiont Manor. Here you will see Llwyn y Brain ('Grove of the Crows') an ancient house that once belonged to the novelist Berta Ruck. In the fields to the south, Cromwell's army held their enemies captive during The Civil War (see 'Interesting Stories'). Go round the back of the hotel to join Path 31 (built to access the construction of the railway in the 1860s). When you reach the old railway why not stop for a picnic on the banks of the river Seiont.

b) Alternatively, from the Square you may choose to circumnavigate the village itself. Again head towards the church but turn right at the crossroads in Glanmoelyn. Turn to the right to take Path 30 to cross the main road carefully at Didda. Here take Path 29 through the golf course and down to Crawia. Turn back towards the village to turn left through Lôn Groes. Turn left again at the Memorial Hall down Station Road where you can turn right along Path 3 or 2 towards Groeslon Marc. Head up the road towards Tan y Coed for a while and take Path 26 to the left to see Bryn Bras Castle. Take Path 25 and/or 24 near the castle to Tan y Coed, crossing the road to take Path 71 back towards Glanmoelyn.

CWM Y GLO

Yn yr hen ddyddiau roedd yn llawer haws teithio ar hyd y dyffryn mewn cwch – o Llyn Bogelyn i Llyn Padarn ac ymlaen ar hyd Llyn Peris – ac oddi yno deua'r llechi a'r copr o'r chwareli bach a'r gweithdai. Roedd y tir o amgylch Llyn Bogelyn yn gorsog ac roedd yn rhaid dringo o'r pentref dros y gefn i ble mae Bryn Bras heddiw er mwyn dilyn yr hen ffordd i Gaernarfon. Dyma'r rheswm pam y datblygodd Cwm y Glo yn borthladd mor bwysig. Ar ôl adeiladu rheilffordd y chwarel, roedd nwyddau'n cael eu cludo mewn cwch ar draws yr afon o'r Stabla i Gwm y Glo. Erbyn hyn, dim ond llofydd sy'n atgoffa'r trigolion bod eu tai wedi'u codi ar lan llyn ac ar dir gwlyb.

In the olden times, travel through the valley was much easier by boat from Llyn Bogelyn to Llyn Padarn and on across Llyn Peris, where the copper and slate came from the quarries and workshops. The land around Llyn Bogelyn was swamp and travellers had to climb out of the village towards the present Bryn Bras to follow the old road to Caernarfon. This is why Cwm y Glo developed as an important port. After building the quarry railway, goods were rowed from Stabla to Cwm y Glo by a boatman. Today, only lofhydd reminds the inhabitants that their houses have been built on a lake shore and wet land.

CYLCHEITHIAU YR EGLWYS I GAETHRO CHURCH TO CAEATHRO CIRCULAR WALK

Cychwyn/Start: Yr Eglwys / The Church
Hyd/Length: 4.5 milltir/miles
Nodiadau/Notes: Hawdd ond gwlyb ar adegau. Easy but wet in places after rain.

Y CYLCHEITHIAU/THE WALK
O'r Eglwys ymunoch â Llwybr 81 heibio Plastrion i gyfeiriad Pontrug. Mae hon yn dalith hysgus drwy'r coed. Trowch i'r chwith ar ôl cyrraedd y lôn wrth ymyl y porthly ac yna ymunoch â Llwybr 90 ar y dde. Yng Nghaeathro, dilynwch y llwybr sy'n dilyn y ffordd i ymuno â Llwybr 83 sy'n arwain at adfeilion bwthyn o'r 17eg ganrif lle dyllid mynd drwy'r giât i ymuno â Llwybr 85. Bydd angen camu dros ffens ymhen ychydig; mae anwydd saeth bychan yno ond gall fod yn anodd ei weld o bell. Cerddwch drwy iard Prysgol, ty hynafol sy'n werth ei weld (gweler 'Hanesion Difyr') ac ymunoch â'r ffordd yn ôl i Llanrug. Cadwch olwg am weddillion yr hen gytau crwn o'r oes haearn ar y ffordd.

From the church head along Path 81 past Plastrion. This path is a wonderful walk in itself through the woodland. Turn left when you reach the country lane by a lodge and take the first footpath to the right (No 90). When you reach Caeathro, follow the footpath as it skirts the road to head back towards Llanrug along Path 83. This leads towards the ruins of a 17th century cottage where you go through a gate to follow Path 85. You will need to step over a short fence at one point and there is a small arrow there but it can be difficult to see from a distance. Follow the path to Prysgol, a magnificent ancient house and walk through the yard and back to the country lane that will take you back to Llanrug. See if you can spot the remains of iron age huts on the way.



Tren yn gadael gorsaf Pontrhythall, Llanrug ym 1960 (chwith).
Train leaving Pontrhythall station, Llanrug in 1960 (left).

LLANRUG

Ffurfiwyd plwyf Llanrug o nifer o unedau seciwlar a oedd ym mediant gwyr rhydd. Datblygodd patrwm o ffermydd bychan, yn enwedig yn rhannau isaf y plwyf. Dyma'r anheddau cynharaf. Roedd gweddill y plwyf yn rhosir a mynydd agored, sef tir comin. Erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif roedd nifer o dai wedi eu hadeiladu ar y comin, yn agos at yr eglwys, y man dyfnahu cyhoeddus (Pwll Moelyn) a'r fawnog. Pan adeiladwyd y ffordd bost o Ben y Geuor am Groeslon Marc a Chwm y Glo yn yr 1830au, symudodd calon y pentref i'r ardal o amgylch Sgwar y Post. Yn llawer diweddarach, gyda dyfodiad y rheilffordd, a sefydlu'r orsaf ym Mhontrhythall, datblygodd y pentref yn llinell hir o dai i'r cyfeiriad hwnnw. Yn ystod y ganrif diweddaf cafwyd y tir rhwng yr hen ganolfannau hyn ei lenwi â stadau o dai.

Llanrug parish was formed from secular units whose land was in the possession of freemen. A pattern of small farmsteads developed, especially in the lower parts of the parish. The remainder of the parish was heath and open mountain: the common land. By the end of the eighteenth century a number of houses were being built on the common, close to the church, the public watering place (Pwll Moelyn) and various peat cuttings. When the post road was built from Pen y Geuor towards Groeslon Marc and Cwm y Glo in the 1830s, the centre of the village moved to the area around the Post Office. Much later, with the coming of the railway and the establishment of the station at Pontrhythall, the village stretched in a long line of houses in that direction. During the last century, the land between these old centres was filled with further housing estates.

Castell BRYNBRAS Castle

Adeiladwyd y 'castell' rhwng 1829 a 1835 ar yr hen lôn i Lanberis gan Thomas Hopper, pensaer i'r Brenin Siôr IV. Defnyddiwyd y castell a Lôn Clegyr yn gefndir i sawl rhaglen deulu fel 'The Persuaders' gyda Roger Moore a Tony Curtis yn y 1970au.

The 'castle' was built by Thomas Hopper, architect to King George IV, between 1829 and 1835. It (and Clegyr Road) was often used as a backdrop in the 1970s television series 'The Persuaders' starring Roger Moore and Tony Curtis.

UNRHYW GWESTYNAU, SYLWADAU, HANESION NEU WYBODAETH AM Y MAP NEU'R LLWYBRAU: CYSYLLTWCWCH A: llwybrau@fsmail.net

ANY QUERIES, COMMENTS, STORIES OR INFORMATION ABOUT THE MAP OR FOOTPATHS? CONTACT: footpaths@fsmail.net

Diolch arferol i Gyngor Llandeiniolen

CYLCHEITHIAU YR EGLWYS I GARREG ARTHUR CHURCH TO CARREG ARTHUR CIRCULAR WALK

Cychwyn/Start Yr Eglwys/ The Church
Hyd/Length: 4.5 milltir/miles
Nodiadau/Notes: Bryniog ar Gefn Du. Hilly on Cefn Du.

Y CYLCHEITHIAU/THE WALK
O'r eglwys dilynwch Llwybrau 69 a 68 i gyfeiriad Tan y Coed. Yno croeswch y ffordd a chychwynwch i fyny am Gefn Du ar hyd llwybrau 45 ac yna 47. Does unman yn well na Chareg Arthur am seibiant neu bnic ac i ryfeddu at y golygfeydd i gyfeiriad Llyn ac Ynys Môn. Ailymunoch â Llwybr 47 i gyfeiriad Clegyr cyn troi i'r dde i ymuno â Llwybr 51. Mae hwn yn llwybr sydd yn dyddio'n ôl i'r Oes Efydd a chadwch olwg am weddillion pentref o'r Oes Haearn ar y llaw dde. Ar ôl cyrraedd 'Ty Uchaf' ewch drwy'r giât i ymuno â Llwybr 55 yn ôl i'r lôn. Trowch i'r chwith a dilynwch y lôn gyntaf i'r dde. Ym Mhant Ifan mae gweddillion hen 'gastell' mwnt a beili o'r 12/13 ganrif (gweler 'Archaeoleg') ac mae'n werth gadael y llwybr am ychydig ar hyd Llwybr 63 i weld y safle. Ar ôl ailymuno â'r ffordd, trowch i'r dde ar hyd Llwybr 65 ar ôl Pant Ifan ac anelu'n ôl am yr Eglwys.

From the church take Paths 69 and 68 to Tan y Coed. Cross the road to begin your ascent up Cefn Du along Paths 45 and 47. There is nowhere better than Carreg Arthur to stop and admire the views towards the Llyn Peninsula and Anglesey. Rejoin Path 47 towards Clegyr but turn to join Path 51. This is a Bronze Age track and see if you can spot the remains of an Iron Age settlement to the right on the way. When you reach 'Ty Uchaf' go through the gate to join Path 55 back to the road. Turn left and take the first lane to the right. At Pant Ifan take a short detour along Path 63 to see the site of a motte and bailey castle (see 'Archaeology'). Back on the road take the first path to the right (No 65) and head back to the church.

ALLWEDD • KEY

CYLCHEITHIAU CERDDED CIRCULAR WALKS

	EGLWYS CHURCH I/TO CARREG ARTHUR
	EGLWYS CHURCH I/TO CAEATHRO
	CWM Y GLO I/TO CLEGYR
	LLANRUG
	LLWYBRAU ERAILL OTHER PATHS
	CYTTIAU OES HAEARN IRON AGE HUTS
	MAEN HIR STANDING STONE
	TAFARN INN
	CAFFI CAFÉ

CYLCHEITHIAU CWM Y GLO A CHLEGYR CWM Y GLO AND CLEGYR CIRCULAR WALK

Cychwyn/Start: Caffi Caban y Cwm Cafe, Cwm y Glo
Hyd/Distance: 2.5 milltir/miles
Nodiadau/Notes: Bryniog, Hilly

Cychwynwch allan o'r pentref i gyfeiriad Llanberis ond cadwch at yr hen ffordd heibio'r sgipiau ailgylchu. Cyn hir byddwch yn ymuno â Llwybr 15 lle cewch olygfeydd benderig ar draws y dyffryn, ac wedyn dilynwch y llwybr i'r dde lle mae'n gwahanu. Ar ôl dringo am ychydig mi welwch yr olygfa hon o'r Wyddfa yn y cefndir (gweler y llun) a wal gerff tua 100 llath i ffwrdd (uchod). Gadewch y llwybr am ychydig at y goeden fasarn gan mai ychydig heibio i'r goeden hon mae'r garreg ryfedd y sonir amdani yn yr adran 'Archaeoleg'. Trowch yn ôl am y llwybr a dalwch i ddringo heibio gweddillion tyddyn o'r 18fed ganrif tan i chi gyrraedd llyn Clegyr. Yna trowch i'r chwith a chyllwch am weddillion cytau crwn Mur Moch (gweler 'Archaeoleg'). Mae'n hen arfer yng Ngallt y Celyn i aros wrth y garreg yn y wal â chroes arni (gweler 'Ffrwydrch y Powdwr Oil' yn yr adran 'Hanesion Difyr'). Oddi yno dilynwch Llwybr 8 gerllaw i fyny am Gefn Du, ac yna trowch i lawr Llwybr 12 i weld y maen hir (gweler 'Archaeoleg'). I lawr yr allt wedyn gan groesi'r lôn at Llwybr 18 i gyfeiriad Bwlch (neu Llwybr 16 ar eich union yn ôl i Gwm y Glo). Trowch i'r dde wrth y gyffordd lle mae Caer Oes Haearn Clegyr y Frân (gweler y cylchllun isod) yn syth o'ch blaen ac yna i lawr yr allt serth yn ôl i Gwm y Glo.

Head out of the village in the direction of Llanberis but continue along the disused road past the recycling skips. You will come across Path 15 from which incredible views across the valley open out and take the path to the right when this splits into two. After climbing for a short while you will see this view of Snowdon (above) in the background and this stone wall about 100 yards away. Take a detour to where you see the Sycamore tree as it is just beyond this that you will come across the curious stone mentioned in the 'Archaeology' section. Head back for the path and continue uphill, past the ruins of an 18th century smallholding until you reach Clegyr Road. Turn left along this road and see if you can spot the remains of Mur Moch Iron Age huts (see 'Archaeology'). At Gallt y Gelyn it is traditional to pay homage to the cross carved on a stone in the wall (see 'The Great Explosion' in 'Interesting Stories'). Take Path 8 nearby up towards Cefn Du, an turn right down Path 12 (at a footpath marker post) to see a magnificent standing stone (see 'Archaeology'). Continue downhill, crossing the country lane to take Path 18 in the direction of Bwlch (or Path 16 back to Cwm y Glo). Turn right when you reach the road junction where Carreg y Fran Iron Age hillfort is directly ahead of you (see the plan below) and head down a steep hill back to Cwm y Glo.